

# Cylchgrawn Bag Llyfrau Bwmerang

# Boomerang Book Bag Magazine

Pori Drwy Stori




Syniadau i'ch helpu i ddarllen a chael hwyl gydag *I am a Tiger* a *Sara A'r Stranc*




Here are some ideas to help you read and have fun with *I am a Tiger* and *Sara A'r Stranc*

**booktrust.org.uk/poridrwystori**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

**BookTrust Cymru**
Getting children reading Ysgogi plant i ddarllen

CE WARNING! This product is not suitable for children under 36 months due to potential sharp points. Adult supervision is recommended. CKN Print Ltd, NN3 8RQ. Batch No:235162021

CE RHYBUDD! Nid yw'r cynnyrch yma yn addas i blant o dan 36 mis oherwydd y pwyntiau miniog all fod yn gynwysiedig. Argymhellir goruchwyliaeth oedolyn. CKN Print Ltd. NN3 8RQ. Rhif Swp:235162021




## Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Dyma lawer o syniadau i'ch helpu i fwynhau'r ddau lyfr Bwmerang gyda'ch plentyn! Gall eich plentyn gadw'r cylchgrawn yma, hyd yn oed ar ôl iddyn nhw fynd â'r llyfrau'n ôl i'r ysgol.

Mae Bagiau Llyfrau Bwmerang yn rhan o raglen Pori Drwy Stori BookTrust Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

## Dear Parents and Carers,

Here are lots of ideas to help you enjoy the two Boomerang Book Bag books with your child! This magazine is for your child to keep, even after they return the books to school.

The Boomerang Book Bags are part of BookTrust Cymru's Pori Drwy Stori programme, funded by the Welsh Government.

### Cynghorion campus!

**Darllenwch yn unrhyw le, unrhyw bryd!**

**Pawb i ymuno!** Mae darllen yn weithgaredd teuluol ardderchog.

### Top tips!

**Read anytime, anywhere!**

**All join in!** Reading is a great family activity.

**Gall darllen gyda'ch gilydd am gyn lleied â deg munud bob dydd wneud gwahaniaeth go iawn!**

10

**Reading together for just ten minutes a day can make a real difference!**




# Sara A'r Stranc

Codwch y llabedi ar y llyfr i weld y testun Saesneg

Lift the flaps on the book for the English text

## Siarad am y llyfr

1. Beth ydy'ch hoff lun yn y llyfr? Pam ydych chi mor hoff ohono?
2. Ar ddechrau'r llyfr sut ydych chi'n meddwl mae Sara'n teimlo? Sut mae wyneb Sara'n dangos ei theimladau? Pam, ydych chi'n meddwl, ei bod hi'n teimlo fel hyn?
3. Mae llawer o bethau'n digwydd i wneud Sara'n flin. Allwch chi restru'r pethau sy'n gwneud ei hwyl ddrwg yn waeth? Beth sy'n digwydd i droi hwyl ddrwg Sara yn stranc?
4. Ar ddiwedd y stori, dydy Sara ddim mewn hwyl ddrwg ddim mwy, ond sut mae pawb arall yn y parc yn teimlo?
   - Oes yna unrhyw gymeriadau sy'n drist neu'n llawn cyffro?
   - Ydych chi wedi teimlo unrhyw rai o'r emosiynau yma?
   - Allwch chi feddwl am unrhyw ffyrdd y gallech chi helpu'ch ffrindiau pan maen nhw'n cael STRANC?

## Talking about the book

1. What's your favourite picture in the book? Why do you like it so much?
2. At the start of the book how do you think Barbara is feeling? How does Barbara's face show her feelings? Why do you think she feels like this?
3. Lots of things happen to make Barbara cross. Can you list the things that make her bad mood worse? What happens to turn Barbara's bad mood into a Wobbler?
4. At the end of the story Barbara isn't in a bad mood anymore, but how is everyone else in the park feeling?
   - Are any of the characters sad or excited?
   - Have you experienced any of these emotions?
   - Can you think of any ways you could help your friends when they have a WOBBLER?

### Cyngor campus!

**Ymgollwch.** Ceisiwch osgoi pethau sy'n dwyn eich sylw, a chanolbwyntiwch ar dreulio amser gwerth chweil gyda'ch gilydd, yn ymgolli yn y stori.

### Top tip!

**Switch off.** Try to avoid distractions and focus on spending that special time together, getting lost in the story.


**Gwrando ar y stori yn Gymraeg**
**booktrust.org.uk/cy-gb/poridrwystori**

**Listen to the story in Welsh at**
**booktrust.org.uk/poridrwystori**

**Byddwch yn graffwyr gwych! Edrychwch yn ofalus ar y lluniau yn y llyfr a rhoi tic wrth ochr pob un y gallwch chi ei ddarganfod.**

**Be a super spotter! Look carefully at the pictures in the book and tick the ones you can find.**








## Cynghorion campus!

**Mae llun yn werth mil o eiriau.** Mae mwy i stori na dim ond y geiriau ar y dudalen. Siaradwch am yr hyn welwch chi, a beth yw ystyr y lluniau.

**Tynnwch lun eich hoff gymeriadau** a dyfeisiwch eich straeon eich hun.

## Top tips!

**Pictures tell a thousand words.** There's more to a story than just the words on the page. Talk about what you see and what the pictures mean.

**Draw your favourite characters** and make up your own stories.

*Sara A'r Stranc* © Nadia Shireen 2020
*Barbara Throws a Wobbler!* © Nadia Shireen 2020

**Allwch chi gysylltu'r dotiau i ysgrifennu'r geiriau yma o'r llyfr?**

**Can you connect the dots to write these words from the book?**

Yn flin  Upset

Yn llon  Cheerful

Y Stranc  Wobbler

Cwtsh  Cuddle

## Ffeithiau ffeithiau ffeithiau

Mae rhywbeth sy'n digwydd y tu mewn ichi neu y tu allan ichi yn gallu deffro emosiynau.

Rydyn ni'n gallu dal emosiwn, yn union fel dal annwyd! Mae emosiynau'n heintus.

Mae emosiynau'n gallu bod yn gorfforol. Pan fyddwn ni'n poeni mae'n gallu teimlo fel pili-pala yn ein bol a phan rydyn ni'n hapus rydyn ni'n gwenu!

**Sut fyddech chi'n helpu'ch ffrind petai mewn hwyl ddrwg?**

## Facts facts facts


Emotions can be triggered by something happening inside of you or outside of you.

We can catch emotions, just like catching a cold! Emotions are contagious.

Emotions can be physical. When we worry it can feel like butterflies in our tummy and when we're happy we smile!

**How would you help your friend if they were in a bad mood?**

*Sara A'r Stranc* © Nadia Shireen 2020
*Barbara Throws a Wobbler!* © Nadia Shireen 2020




# I am a Tiger

## Siarad am y llyfr

1. Beth ydy'ch hoff ran o'r stori? Pam?
2. Pa anifeiliaid mae'r llygoden yn cyfarfod â nhw yn ystod y stori? Ydych chi wedi gweld llygoden, llwynog neu deigr?
3. Mae'r llygoden yn meddwl ei fod yn Deigr. Sut mae llygod a theigrod yn wahanol? Meddyliwch am eu maint, eu lliw, y pethau y maen nhw'n eu bwyta, y pethau y maen nhw'n gallu eu gwneud a'r sŵn y maen nhw'n ei wneud.
4. Allwch chi weld dant y llew? Ble, ydych chi'n meddwl, mae'r anifeiliaid yn y stori?
5. Sut mae'r teigr yn teimlo pan mae'r llygoden yn dweud wrtho mai nid teigr ydy o? Ydych chi erioed wedi gweld rhywbeth a meddwl ei fod yn rywbeth arall? Beth oedd hyn?

## Talking about the book

1. Which is your favourite part of the story? Why?
2. What animals does the mouse meet throughout the story? Have you ever seen a mouse a fox or a tiger?
3. The mouse thinks that he is a Tiger. How are mice and tigers different? Think about their size, their colour, what they eat, things they can do and the noise they make.
4. Can you spot the dandelion? Where do you think the animals are in the story?
5. How does the tiger feel when the mouse tells him he is not a tiger? Have you ever seen something and thought it was something else? What was it?

### Cyngor campus!

**Ar ôl i chi ddarllen y llyfr gyda'ch gilydd, gofynnwch i'ch plentyn ddweud wrthych beth ddigwyddodd yn y stori.** Pan fydd eich plentyn yn ailadrodd stori yn ei eiriau'i hun, mae'n datblygu'r cof a'r dychymyg – ac mae'n hwyl i'r plentyn fod yn storïwr!

### Top tip!

**After you read the book together, ask your child to tell you what happened in the story.** When your child retells a story in their own words, it develops their memory and their imagination – and it's fun for them to be the storyteller!

**Gallwch wylio a gwrando ar yr awdur yn darllen ei lyfr yma:**
**booktrust.org.uk/cy-gb/boomerang-book-bags**

**You can watch and listen to the author reading his book here:**
**booktrust.org.uk/boomerang-book-bags**

*I Am a Tiger* © Karl Newson a Ross Collins 2019. Macmillan Children's Books
*I Am a Tiger* © Karl Newson and Ross Collins 2019. Macmillan Children's Books


## Byddwch yn graffwyr gwych!

Edrychwch yn ofalus ar y lluniau yn y llyfr a rhoi tic wrth ochr pob un y gallwch chi ei ddarganfod.

## Be a super spotter!

Look carefully at the pictures in the book and tick the ones you can find.










**Lliwiwch yr anturiaethwyr yn eu gwisg ffansi anifeiliaid. Pa anifeiliaid ydyn nhw?**

**Colour in the explorers in their animal fancy dress. What animals are they?**










*I Am a Tiger* © Karl Newson a Ross Collins 2019. Macmillan Children's Books
*I Am a Tiger* © Karl Newson and Ross Collins 2019. Macmillan Children's Books

# Allwch chi helpu'r llygoden i ddod o hyd i'r ffordd yn ôl at ei ffrindiau?

# Can you help the mouse find his way back to his friends?



Faint o anifeiliaid wnaethoch chi eu cyfrif ar hyd y ffordd?



How many animals did you count along the way?

## Ffeithiau ffantastig!

- Teigrod ydy'r cathod gwyllt mwyaf yn y byd.
- Mae teigrod yn nofwyr da.
- Mae pob teigr yn wahanol, fel y mae pob person yn wahanol. Mae gan bob teigr streipiau gwahanol. Mae teigrod fel rheol yn hela yn y nos.
- Allwch chi ddod o hyd i ragor o ffeithiau ffantastig am Deigrod?

## Fun facts!

- Tigers are the largest wild cats in the world.
- Tigers are good swimmers.
- Every tiger is different, as every person is different. All tigers have different stripes. Tigers usually hunt at night.
- Can you find any more fantastic facts about Tigers?




*I Am a Tiger* © Karl Newson a Ross Collins 2019. Macmillan Children's Books
*I Am a Tiger* © Karl Newson and Ross Collins 2019. Macmillan Children's Books

## Dilynwch y camau syml yma

I greu eich Llygoden arbennig eich hun

## Follow these simple steps

To create your very own Mouse





### Tynnwch eich llun eich hun o rywbeth o'r llyfr yma!

### Draw your very own picture from the book here!



*I Am a Tiger* © Karl Newson a Ross Collins 2019. Macmillan Children's Books
*I Am a Tiger* © Karl Newson and Ross Collins 2019. Macmillan Children's Books

Dyma lyfrau eraill y gallech chi fwynhau eu darllen gyda'ch gilydd.



Here are some other books you might like to read together.




***Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll***
Carys Glyn

***Paid Byth â Goglais Teigr***
Pamela Butchart

***Cwmwl Bychan***
Anne Booth Sarah Massini

***Bumble Bear***
*Nadia Shireen*

***There's A Mouse in My House***
*Ross Collins*

***Meet the Penguins***
Mike Brownlow



# Libraries offer...

**The first steps to a lifetime of enjoyment**

- A warm welcome to you and your child.
- Bright, funny, colourful and exciting books that you can borrow for free.
- A comfortable space to share, and enjoy books together.
- An opportunity to meet other families and enjoy songs, rhymes and stories.
- Chat to staff about finding the best books for you and your child.
- A free library card of their very own for your child.

**Why are libraries good for you?**

- Giving your child a head-start in life.
- Developing language and reading skills.
- Improving communication skills.
- Preparing your child for school.
- Meeting people and making new friends.
- Quality time together with books.

**All for FREE!**

Website: libraries.wales


Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Cofiwch, gallwch chi fenthyg llyfrau'n rhad ac am ddim o'ch llyfrgell leol!**

**Remember, you can borrow books free from your local library!**


Dewch o hyd i ragor o lyfrau i ysbrydoli ar Ganfyddwr Llyfrau'r BookTrust:
Find more inspiring books on the BookTrust Bookfinder:

**booktrust.org.uk/bookfinder**



# Rhowch eich barn i'r athro/athrawes
## Tell your teacher what you think!




1. Wnaethoch chi fwynhau *Sara a'r Stranc*?
2. Sawl gwaith wnaethoch chi ddarllen y llyfr yma?
3. Wnaethoch chi fwynhau *I am a Tiger*?
4. Sawl gwaith wnaethoch chi ddarllen y llyfr yma?
5. Wnaethoch chi fwynhau'r cylchgrawn yma?
6. Beth wnaethoch chi ei fwynhau fwyaf? ..................................................

..................................................

..................................................

Sylwadau eraill am Fag Llyfrau Bwmerang ..................................................

..................................................







1. Did you like *Sara a'r Stranc*?
2. How many times did you read this book?
3. Did you like *I am a Tiger*?
4. How many times did you read this book?
5. Did you enjoy this magazine?
6. What did you like doing the most? ..................................................

..................................................

..................................................

Other comments about the Boomerang Book Bag ..................................................

..................................................



# Fframio'ch ddarlun!
# Frame your drawing!

Mae'n amser cael hwyl wrth wneud darlun yn y ffrâm! Tynnwch lun o'ch hoff gymeriad mewn llyfr, golygfa o un o'r llyfrau Bwmerang, neu unrhyw beth arall – eich dewis chi ydy hyn! Cofiwch fynd â'r llun i'r ysgol i'w rannu gyda'r dosbarth.

Have fun drawing a picture in the frame! Draw your favourite book character, a scene from one of the Boomerang books or anything else – it's up to you! Take your picture into school to share with your class.

Enw/Name ........................................................................................................